



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif (677 Cy.74)

2002 No. 677 (W.74)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

SEA FISHERIES, WALES

Rheoliadau Diwygio Gorchymyn
Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau
Cymunedol ar gyfer Monitro â
Lloeren) (Cymru) 2000 2002

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order 2000
Amendment Regulations 2002

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1078 (Cy.71)) ("y Gorchymyn"), sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gorfodi deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod lleoliad cychod pysgota uwchlaw maint arbennig yn cael ei fonitro â lloeren. Fel yn achos y Gorchymyn hwnnw, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chychod pysgota yn y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru.

These Regulations amend the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 (S.I. 2000/1078 (W.71)) ("the Order"), which contains provisions for the enforcement of European Community legislation requiring satellite monitoring of the position of fishing boats above a certain size. Like that Order, these Regulations apply in relation to fishing boats within the territorial sea adjacent to Wales.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn yn newid y Gorchymyn mewn dwy brif ffordd. Mae Rheoliad 4 yn diwygio erthygl 3 o'r Gorchymyn sy'n creu rhwymedigaethau ynghylch gosod a gweithredu dyfeisiau olrhain lloerennol, drwy egluro'r gofyniad yn erthygl 3(3)(b) bod dyfais olrhain loerennol yn cael ei chadw'n hollol weithredol. Yn benodol mae'r drafftio newydd yn ei gwneud yn glir nad yw'r gofyniad hwnnw yn cael ei dorri naill ai pan fydd y ddyfais olrhain loerennol yn cael ei throi i ffwrdd yn y porthladd o dan amodau a ganiateir gan ddeddfwriaeth berthnasol y GE neu os oes diffyg technegol neu os yw'n methu â gweithio pan fydd y cwch yn y porthladd neu pan nad yw'r cyfnod dros dro pryd y mae deddfwriaeth berthnasol y GE yn caniatáu pysgota gyda dyfais ddiffygiol wedi dod i ben eto.

The amendments made by these Regulations make two main changes to the Order. Regulation 4 amends article 3 of the Order, which creates obligations relating to the installation and operation of satellite tracking devices, by clarifying the requirement in article 3(3)(b) for the satellite tracking device to be maintained fully operational. In particular the new drafting makes clear that no breach of that requirement occurs either when the satellite tracking device is switched off in port under conditions permitted by the relevant EC legislation or if there is a technical fault or non-function when the boat is in port or when the temporary period for which the relevant EC legislation allows fishing with a defective device has not yet expired.

Mae Rheoliad 4 yn gosod gofyniad ychwanegol bod

Regulation 4 imposes an additional requirement that,

rhaid darparu'r wybodaeth a fynnyd am leoliad bob dwy awr i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig drwy delects, ffacs, ffôn neu radio, os nad yw ei ddyfais olrhain yn gweithio, tra bod cwch pysgota y mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn gymwys iddo ar y môr.

Mae'r prif newid arall yn cael ei wneud gan reoliad 8, sy'n rhoi pŵer gorfodi ychwanegol i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig mewn achos lle mae'r ddyfais olrhain loerennol ar fwrdd cwch pysgota Prydeinig wedi methu â gweithio. Gall y swyddog gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwch aros yn y porthladd nes bod y cyfnod monitro o 24 awr yn dod i ben. Yn ystod y cyfnod hwn rhaid gosod y ddyfais olrhain loerennol i ddarlledu'r wybodaeth a fynnyd am leoliad bob dwy awr (bob awr yn achos dyfais nad yw wedi'i dylunio i allu cael ei pholio gan y Ganolfan Fonitro).

Mae'r diwygiadau eraill sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau yn rhai canlyniadol. Maent yn cynnwys diddymu amddiffyniad mewn achos troseddol penodol sydd wedi'i ddisodli drwy'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan reoliad 4 (gweler rheoliadau 1(2) a 5).

while a fishing boat to which article 3 of the Order applies is at sea, if its tracking device is not working the required positional information must be provided every two hours to the United Kingdom's Fisheries Monitoring Centre by telex, fax, telephone or radio.

The other main change is made by regulation 8, which confers an additional enforcement power on a British sea fisheries officer in a case where there has been a failure of operation of the satellite tracking device on board a British fishing vessel. The officer may serve a notice requiring the boat to remain in port until the expiry of a 24 hour monitoring period, during which the satellite tracking device must be set so as to broadcast the required position information every two hours (every hour in the case of a device which is not designed to be capable of being polled by the Monitoring Centre).

Other amendments made by the Regulations are consequential. They include the revocation of a defence to certain criminal proceedings which has been made obsolete by the changes made by regulation 4 (see regulations 1(2) and 5).

2002 Rhif 677 (Cy.74)**2002 No. 677 (W.74)****PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES, WALES**

Rheoliadau Diwygio Gorchymyn
Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau
Cymunedol ar gyfer Monitro â
Lloeren) (Cymru) 2000 2002

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order 2000
Amendment Regulations 2002

Wedi'u gwneud

12 Mawrth 2002

Made

12th March 2002

Yn dod i rym

1 Ebrill 2002

Coming into force

1st April 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan yr adran 2(2) uchod a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, being designated(a) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(b) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly by the said section 2(2) and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations:

Teitl, cychwyn ac eithrio

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

Title, commencement and saving

1.-(1) These Regulations are called the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000 Amendment Regulations 2002 and come into force on 1st April 2002.

(2) Ni fydd y ffaith bod rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diddymu erthygl 4(2) o'r Gorchymyn yn effeithio ar ei chymhwyso mewn achos (pa bryd bynnag y mae'n digwydd) am dramgwydd yr honnir ei fod wedi'i gyflawni cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) The revocation by regulation 5 of these Regulations of article 4(2) of the Order shall not affect its application in proceedings (whenever occurring) for an offence alleged to have been committed before the coming into force of these Regulations.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Gorchymyn" yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2000(c).

Interpretation

2.-(1) In these Regulations "the Order" means the Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2000(c).

(2) Dehongler ymadroddion a ddefnyddir mewn darpariaethau sy'n cael eu mewnosod gan y Rheoliadau

(2) Expressions used in provisions inserted by these Regulations into the Order are to be interpreted in the

(a) O.S. 1999/2788.

(b) 1972 p. 68.

(c) O.S. 2000/108 (Cy. 71).

(a) S.I. 1999/2788.

(b) 1972 c. 68.

(c) S.I. 2000/1078 (W.71).

hyn i mewn i'r Gorchymyn yn yr un modd â phetaent wedi'u mewnosod felly gan orchymyn a wnaed o dan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a).

Diwygio'r Gorchymyn

3. Yn erthygl 2(1) (dehongli) o'r Gorchymyn mewnosoder yr is-baragraff canlynol yn union ar ôl y diffiniad o "cwch pysgota Prydeinig perthnasol" -

"ystyr "dydd o'r wythnos" yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyl gyhoeddus;"

4. -(1) Diwygir erthygl 3 (olrhain cychod pysgota â lloeren) o'r Gorchymyn fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3), dilëir is-baragraff (b) gan fewnosod yn union ar ôl is-baragraff (a) -

"a

(b) yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (6), gael ei chadw yn hollol weithredol,"

(3) Dilëir paragraff (4) gan roi'r paragraffau canlynol yn ei le-

"(4) Heb gyfyngu ar baragraff (3)(b) yn gyffredinol, rhaid peidio â barnu bod dyfais olrhain loerennol yn hollol weithredol at ddibenion yr is-baragraff hwnnw yn ystod unrhyw gyfnod y mae'n methu â gweithredu yn unol â pharagraff (5).

(5) Rhaid i ddyfais olrhain loerennol sydd wedi'i gosod ar gwch pysgota y mae'r erthygl hon yn gymwys iddi drosglwyddo'r wybodaeth a fynnwyd, yn y fformat a ragnodir gan Atodiad II i Reoliad 1489/97, i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd -

(a) pan yw'r ddyfais olrhain loerennol yn gallu cael ei pholio -

(i) o leiaf bob dwy awr; neu

(ii) mewn achos y pennir cyfnod hwyaf uwch ar ei gyfer yn Atodiad I i Reoliad 1489/97, yn ôl cyfnodau nad ydynt yn uwch na'r cyfnod hwyaf hwnnw; neu

(b) pan nad yw'r ddyfais olrhain loerennol yn gallu cael ei pholio, o leiaf bob awr.

(6) Rhaid peidio â thrin y naill na'r llall o'r amgylchiadau canlynol fel rhai sy'n arwain at dorri'r gofyniad ym mharagraff (3)(b) -

(a) pan yw'r ddyfais wedi'i throï i ffwrdd o dan yr amodau a ganiateir gan Atodiad I i Reoliad 1489/97 (aros yn y porthladd am fwy na 48 awr, ar yr amod bod yr adroddiad nesaf yn dod o'r un lleoliad â'r un blaenorol);

(b) pan yw'r ddyfais yn methu yn dechnegol neu'n cau gweithredu o fewn ystyr "technical failure or non-function" yn Erthygl 6.2 o Reoliad 1489/97 tra bod y cwch pysgota naill ai yn y porthladd neu ar

same way as if they had been so inserted by an order made under section 30(2) of the Fisheries Act 1981(a).

Amendment of the Order

3. In article 2(1) (interpretation) of the Order the following sub-paragraph shall be inserted immediately after the definition of "Scottish fishing boat" -

"weekday" means a day other than a Saturday, Sunday or public holiday."

4.-(1) Article 3 (satellite tracking of fishing boats) of the Order is amended as follows.

(2) In paragraph (3), sub-paragraph (b) is deleted and immediately after sub-paragraph (a) there is inserted -

"and

(b) subject to paragraphs (4) and (6), be maintained fully operational,"

(3) Paragraph (4) is deleted and in its place there is substituted the following paragraphs -

"(4) Without limiting the generality of paragraph (3)(b), a satellite tracking device shall not be regarded as fully operational for the purpose of that sub-paragraph during any time when it is failing to operate in accordance with paragraph (5).

(5) A satellite tracking device installed on a fishing boat to which this article applies shall transmit the required information, in the format prescribed by Annex II to Regulation 1489/97, to a Fisheries Monitoring Centre -

(a) where the satellite tracking device is capable of being polled -

(i) at least every two hours; or

(ii) in a case for which a longer maximum interval is specified in Annex I to Regulation 1489/97, at intervals no longer than that maximum; or

(b) where the satellite tracking device is not capable of being polled, at least hourly.

(6) Neither of the following circumstances shall be treated as giving rise to a breach of the requirement in paragraph (3)(b) -

(a) where the device is switched off under the conditions permitted by Annex I to Regulation 1489/97 (stay in port of more than 48 hours, provided the next report is from the same position as the previous one);

(b) where the device is subject to a technical failure or non-function within the meaning of Article 6.2 of Regulation 1489/97 during a time when the fishing boat is either in port or in the course of a fishing trip

(a) 1981 p. 29; cafodd O.S. 2000/191 ei wneud o dan adran 30(2).

(a) 1981 c. 29; S.I. 2000/191 was made under section 30(2).

ganol taith bysgota a awdurdodir gan yr Erthygl honno.

(7) Drwy gydol unrhyw gyfnod -

- (a) pan nad yw cwch pysgota Prydeinig perthnasol neu gwch pysgota o'r Alban y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo yn y porthladd, a
- (b) pan yw'r ddyfais olrhain loerennol sydd wedi'i gosod ar y cwch yn methu â gweithredu am unrhyw reswm yn unol â pharagraff (5),

heb ragfarnu Erthygl 6.1 o Reoliad 1489/97 (y gofyniad i drosglwyddo gwybodaeth i ganolfannau monitro gwladwriaethau'r faner ac, os yw'n briodol, gwladwriaethau'r arfordir drwy dulliau eraill o leiaf bob 24 awr), rhaid trosglwyddo'r wybodaeth a fynnyd i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig drwy un o'r dulliau a bennir yn yr Erthygl honno o leiaf bob dwy awr. "

5. Mae Erthygl 4(2) (tramgwyddau) o'r Gorchymyn yn cael ei diddymu.

6. Yn erthygl 5(1) (cosbau) o'r Gorchymyn yn lle "neu (4)" mewnosodir "neu (7)".

7. Yn erthygl 6(3), dilëir y geiriau "adran 90 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980,".

8. -(1) Mae Erthygl 7 (pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota) o'r Gorchymyn yn cael ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle "i (4)" rhoddir "i (8)".

(3) Ar ôl paragraff (4) mewnosodir -

"(5) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod y ddyfais olrhain loerennol ar gwch pysgota Prydeinig perthnasol neu gwch pysgota o'r Alban wedi methu â gweithredu, pan nad oedd y cwch yn y porthladd, yn unol ag erthygl 3(5) o'r Gorchymyn hwn, gall y swyddog hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (7), unrhyw bryd y mae'r cwch mewn porthladd, gyflwyno i'r capten neu'r perchennog hysbysiad o dan baragraff (6).

(6) Mae'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (5) yn hysbysiad -

- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cwch gael ei gadw yn y porthladd o adeg cyflwyno'r hysbysiad hyd nes i'r cyfnod monitro penodedig ddod i ben; a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddyfais gael ei gosod (mor agos ag y mae ei chyflwr yn caniatáu) fel ei bod yn trosglwyddo'r wybodaeth a fynnyd i Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig -

authorised by that Article.

(7) Throughout any time when -

- (a) a relevant British fishing boat or a Scottish fishing boat to which this article applies is not in port, and
- (b) the satellite tracking device installed on the boat is failing for any reason to operate in accordance with paragraph (5),

without prejudice to Article 6.1 of Regulation 1489/97 (requirement to communicate information to flag state and, if appropriate, coastal state monitoring centres by other means at least every 24 hours), the required information shall be communicated to the Fisheries Monitoring Centre of the United Kingdom by one of the means specified in that Article at least every two hours."

5. Article 4(2) (offences) of the Order is revoked.

6. In article 5(1) (penalties) of the Order in place of "or (4)" there is inserted "or (7)".

7. In article 6(3), the words "section 90 of the Magistrates Court Act 1980" are deleted.

8.-(1) Article 7 (powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats) of the Order is amended as follows.

(2) In paragraph (1), for "to (4)" there is substituted "to (8)".

(3) After paragraph (4) there is inserted -

"(5)Where it appears to a British sea fisheries officer that the satellite tracking device on a relevant British fishing boat or a Scottish fishing boat failed, at a time when the boat was not in port, to operate in accordance with article 3(5) of this Order, that officer may, subject to paragraph (7), at any time when the boat is in port, serve on the master or the owner a notice under paragraph (6).

(6) The notice referred to in paragraph (5) is a notice which -

- (a) requires the boat to be detained in port from the time of service of the notice until the expiry of the specified monitoring period; and
- (b) requires that throughout the specified monitoring period the device shall be set (as nearly as its condition allows) so as to transmit the required information to the Fisheries Monitoring Centre of the United Kingdom -

(i) yn achos dyfais sydd wedi'i dylunio i allu cael ei pholio, o leiaf bob dwy awr; a

(ii) yn achos dyfais nad yw wedi'i dylunio felly, o leiaf bob awr.

(7) Rhaid peidio â chyflwyno hysbysiad o dan baragraff (6) yn ddiweddarach na 30 diwrnod ar ôl y diwrnod diwethaf y methodd y ddyfais olrhain loerennol â gweithredu yn unol ag erthygl 3(5) o'r Gorchymyn hwn ym marn y swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

(8) Yn yr erthygl hon -

(a) ym mharagraffau (5) a (7) mae'r cyfeiriad at erthygl 3(5) o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth i'r un perwyl a wnaed drwy orchymyn sy'n gymwys i ddyfroedd y tu hwnt i'r môr tiriogaethol cyfagos â Chymru;

(b) ym mharagraff (6) ystyr "y cyfnod monitro penodedig" yw cyfnod o 24 awr sy'n cael ei bennu yn yr hysbysiad (a rhaid i'r cyfnod hwnnw beidio â dechrau yn hwyrach na 9.00 a.m. ar y diwrnod o'r wythnos ar ôl y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno).".

(i) in the case of a device designed to be capable of being polled, at least every two hours; and

(ii) in the case of a device not so designed, at least every hour.

(7) A notice under paragraph (6) shall not be served later than 30 days after the day on which it appears to the British sea fisheries officer that the satellite tracking device last failed to operate in accordance with article 3(5) of this Order.

(8) In this article -

(a) in paragraphs (5) and (7) the reference to article 3(5) of this Order includes a provision to the same effect made by an order which applies to waters beyond the territorial sea adjacent to Wales;

(b) in paragraph (6) "the specified monitoring period" means a period of 24 hours which is specified in the notice (which period shall not begin later than 9.00 a.m. on the weekday next following the day on which the notice is served).".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

12 Mawrth 2002

12th March 2002

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

2002 Rhif 677 (Cy.74)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Rheoliadau Diwygio Gorchymyn
Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau
Cymunedol ar gyfer Monitro â
Lloeren) (Cymru) 2000 2002

2002 No. 677 (W.74)

SEA FISHERIES, WALES

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Satellite Monitoring
Measures) (Wales) Order 2000
Amendment Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W0021/04/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090454-0



9 780110 904542